OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M48 (Pont Hafren, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Gorffennaf 2025* |
| *Yn dod i rym* | *8 Gorffennaf 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o draffordd yr M48, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar y darnau penodedig o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn er mwyn gwneud gwaith ar y ffordd neu gerllaw iddi ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd neu o ddifrod difrifol i'r ffordd, na ellir ei briodoli i'r gwaith hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i fodolaeth llwybrau eraill ar gyfer y traffig y bydd y Gorchymyn hwn yn effeithio arno yn unol ag adran 14(3) o'r Ddeddf.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M48 (Pont Hafren, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Mawr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Gorffennaf 2025.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The M48 Motorway (Severn Bridge, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *6 July 2025* |
| *Coming into force* | *8 July 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the M48 motorway, are satisfied that traffic on the specified lengths of the motorway specified in the Schedule to this Order, should be prohibited for works to be undertaken on or near the road and because of the likelihood of danger to the public or of serious damage to the road, which is not attributable to such works.

The Welsh Ministers have had regard to the existence of alternative routes suitable for the traffic which will be affected by this Order in accordance with section 14(3) of the Act.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the M48 Motorway (Severn Bridge, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Large Vehicles) Order 2025 and this Order comes into force on 8 July 2025.

**(1)** 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, neu at ddibenion gwaith a chynnal a chadw neu a awdurdodir gan swyddog heddlu mewn lifrai, swyddog traffig neu berson penodedig a chan weithredwyr gwasanaethau bysiau neu goetsys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 8 Gorffennaf 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd yr M48 Llundain i Dde Cymru;

mae i "person penodedig" yr ystyr a roddir i "appointed person" yn adran 23 o Ddeddf Pontydd Hafren 1992(**1**).

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, sy'n pwyso dros 7.5 tunnell, nac ychwaith beri neu ganiatáu cerbyd o'r fath, ar y darnau o draffordd yr M48 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Gorffennaf 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

(**1**) 1992 p 3.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"appointed person" has the meaning given in section 23 of the Severn Bridges Act 1992(**1**);

"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means any vehicle being used by the emergency services, for works and maintenance purposes or authorised by a uniformed police officer, traffic officer or appointed person and by bus or coach service operators;

"the motorway ("y draffordd") means the M48 London to South Wales Motorway;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 00:01 hours on 8 July 2025 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, with a weight exceeding 7.5 tonnes on the lengths of the M48 Motorway described in the Schedule to this Order.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 6 July 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Transport
Welsh Government

(**1**) 1992 c 3.

## YR ATODLEN

Y gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt wrth ymyl trwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 2 hyd at bwynt 47 o fetrau i'r dwyrain o'r uniad mecanyddol ym mhen gorllewinol Pont Hafren.

Y ffordd ymuno tua'r dwyrain o Gylchfan Newhouse wrth Gyffordd 2 hyd at y lle y mae'n uno â phrif gerbytffordd yr M48.

## SCHEDULE

The eastbound carriageway which extends from a point adjacent to the nosing of the of the eastbound exit slip road at Junction 2 to a point 47 metres east of the mechanical joint on the western end of the Severn Bridge.

The eastbound on slip from the Newhouse Roundabout at Junction 2 to the merge with the main M48 Carriageway.